

Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service

GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

# Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol

1af Ebrill 2020 – 31ain Mawrth 2021

CODI YMWYBYDDIAETH - LLEIHAU RISG

# Cynnwys


Datganiad Cydraddoldeb ........ 4
Cyflwyniad ........ 5
Amdanom Ni, Pwy Rydym Yn Gwasanaethu, Beth Ydym Wedi Gwneud ........ 6
Ein Gweledigaeth, Cenhadaeth a'n Gwerthoedd ........ 8
Y Ddyletswydd Gyffredinol ........ 9

**Dyletswyddau Penodol::**

Rheoliadau 3 a 4 ........ 10
Rheoleiddiad 5 ........ 11
Rheoleiddiad 6 ........ 12
Rheoleiddiad 7 ........ 13
Rheoleiddiad 8 ........ 14
Rheoleiddiad 9 ........ 15
Rheoleiddiad10 ........ 16
Rheoliadau 11, 12, 13 a 14 ........ 17
Rheoleiddiad 18 ........ 19

**Atodiadau:**

Data Gwasanaeth ........ 20-24
Data Staff ........ 25
Data Staff: Rhywedd/Rhyw a Staff sy'n Gadael ........ 26-27
Data Staff: Staff Corfforaethol a Staff Gwisg yn ôl Rhywedd/Rhyw ........ 28-29
Data Recriwtio 2019-2020: Ceisiadau a Dderbyniwyd - Staff Corfforaethol ........ 32
Data Recriwtio 2019-2020: Ceisiadau a Dderbyniwyd - Staff Ar Alwad........ 33
Geirfa ........ 39

# Datganiad Cydraddoldeb



**Huw Jakeway QFSM**
Y Prif Swyddog Tân



**Sally Chapman**
Dirprwy Brif Swyddog
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol



**Councillor Tudor Davies MBE**
Cadeirydd
Awdurdod Tân ac Achub De Cymru (ATADC)

Croeso i'n Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2020/21.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADC) yn parhau i adeiladu cydraddoldeb ac amrywiaeth ym mhob peth y gwnawn - gan gynnwys creu gweithle sy'n rhoi gwerth i amrywiaeth gweithwyr, a darparu gwasanaethau sy'n ganolog i'r bobl i holl gymunedau De Cymru. Taith barhaol yw hon rydym yn ymrwymedig i'w pharhau.

I weld sut rydym yn gweithio i roi cydraddoldeb ar waith o fewn y Gwasanaeth Tân, a fyddech cystal â chymryd cipolwg ar ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, ein Cynllun Strategol Corfforaethol a'n Cynllun Gwella.

Gellir canfod yr holl gynlluniau hyn, ynghyd â gwybodaeth arall, o fewn Llyfrgell Cyhoeddiadau ein gwefan ar www.decymru-tan.gov.uk

Gellir darparu'r ddogfen hon mewn fformatau amgen ar gais gan y cyswllt a roddwyd ar y dudalen gefn.

# Cyflwyniad

Nod yr Adroddiad Blynyddol hwn yw cwrdd â Rheoleiddiad 14 o'r Dyletswyddau Penodol Cymreig, a dylid ei ddarllen ynghyd â'r Adroddiad Blynyddol diwethaf i gael darlun cyflawn:

[Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2019/20]

Y rheswm am Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yw gweithredu fel cerdyn adrodd sy'n dangos rhywfaint o sut rydym ni, fel gwasanaeth a gyllidwyd gan y cyhoedd, yn symud ymlaen wrth gydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb (2010).

Yma yng Nghymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r Dyletswyddau Penodol Cymreig hefyd fel camau defnyddiol ar hyd y siwrne gydraddoldeb i wasanaethau cyhoeddus.

Mae creu gwelliant ymarferol, gwirioneddol ac ystyrlon yn cymryd amser, a gobeithiwn byddwch yn cytuno ein bod ni'n anelu ar hyd y trywydd cywir.

# Amdanom Ni

**10** o Awdurdodau Lleol

**1,100** o filltiroedd sgwâr

tua **670,000** o aelwydydd

dros **1.5** miliwn o bobl

yn cynnwys **828** diffoddwr tân Llawn Amser

**565** diffoddwr tân Ar Alwad

**347** Staff Corfforaethol

**41** Staff Ystafell Rheoli

Mewn cysylltiad â thua **35,000** o adeiladau busnes

# Yn 2021-2022, fe wnaethom:

ddelio â **32,056** o alwadau brys

dderbyn galwad i fynychu **605** o danau damweiniol yn y cartref

dderbyn **301** o alwadau ffug maleisus

o'r rhain adnabuwyd **51** gan Reoli Tân eu bod yn ffug

ymateb i **16,723** o ddigwyddiadau, lle'r oedd **5,481** yn danau

**2,918** yn argyfyngau heb fod yn dân

**8,324** yn alwadau ffug

fynychu **367** o danau cerbyd bwriadol

**643** o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd gyda

**98** o'r rhain ynghlwm â datglymu pobl

gynnal **30** o ymweliadau CA1-4 ag ysgolion

yn ymgysylltu â **1,120** o bobl ifanc

cynhaliwyd **3,889** Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref

cynhaliwyd **451** archwiliad diogelwch tân

Rydym yn darparu: **ataliad**, **diogelwch** ac **ymateb**

**24** awr y dydd

**7** diwrnod yr wythnos

**365** diwrnod y flwyddyn

**92c** **y pen bob wythnos**

## EIN **GWELEDIGAETH**

"I wneud De Cymru'n ddiogelach wrth leihau risg"

## EIN **CENHADAETH**

**Byddwn yn cyflawni hwn wrth:**

- **W**asanaethu anghenion ein cymunedau
- **W**eithio ag eraill
- **L**eihau risg wrth addysgu, gorfodi ac ymateb
- **L**wyddo i wneud De Cymru'n ddiogelach

## EIN **GWERTHOEDD**

**Diffiniwch yr hyn yr ydym yn sefyll drosti; Ein rheolau craidd.**

Pryd bynnag y dewch i gysylltiad â'r Gwasanaeth, dylai'r gwerthoedd hyn fod yn amlwg ar bob adeg.

- Yn ofalgar
- Yn ymroddgar
- Yn ddisgybledig
- Yn rymus
- Yn broffesiynol
- Yn hydwyth
- Yn barchus

# Y Ddyletswydd Gyffredinol

Sefydlodd Deddf Cydraddoldeb 2010 Ddyletswydd Gyffredinol sy'n anelu i sicrhau nad yw pobl sydd â Nodweddion Gwarchodedig yn cael eu gwahardd, y gwahaniaethir yn eu herbyn, neu fel arall yn cael eu trin yn llai na neb arall, o ganlyniad i'w nodweddion gwarchodedig; ac mae'n cynnwys tri maes hanfodol:

- **Dileu** gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf
- **Hyrwyddo** cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol â phobl nad ydynt yn ei rannu
- **Maethu** perthnasau da rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol â phobl nad sy'n rhannu hyn

Cefnogir y Ddyletswydd Gyffredinol ymhellach gan y Dyletswyddau Penodol Cymreig. (Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol hefyd yn cefnogi gwaith cydraddoldeb, ond ni chynhwysir hyn yn benodol o fewn yr Adroddiad).

**Mae rhai o'r ffyrdd y buom yn gweithio tuag at y Ddyletswydd Gyffredinol yn cynnwys:**

- Mae'r Gwasanaeth wedi bod yn rhagweithiol wrth greu Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol newydd Llywodraeth Cymru, gan gynnwys: y Prif Swyddog Tân a'r Swyddog Amrywiaeth ill dau yn siarad mewn digwyddiadau ar-lein, llunio cymhwysiad a seilwaith y Ddyletswydd, yn ogystal â chymryd rhan mewn ymchwil a'r gweithgor sefydledig

- Rhoi ar waith ein hymrwymiad i weledudd a dangos esiampl trwy ddatblygu a rhannu straeon staff trwy'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer Mis Hanes Pobl Dduon, Mis Hanes LHDT a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod

- Gwneud cynnydd pellach o ran cael data dienw gan ddefnyddwyr gwasanaeth a fydd yn ein cynorthwyo i asesu'r hyn yr ydym yn ei ddarparu, ac ar gyfer pwy, gan nodi lle mae bylchau o hyd

- Trefnu a llwyddo i gynnal digwyddiadau rhithiol am weithredu'n gadarnhaol, lle'r oedd diffoddwyr tân yn rhannu eu straeon

- Adolygu'r broses recriwtio Weithredol er mwyn gweld a oes unrhyw rwystrau o ran y sawl a allai fod dan anfantais gymdeithasol (megis gofyn am drwydded yrru yn syth ar ôl eu recriwtio)

# Y Dyletswyddau Penodol Cymreig

Dengys yr adran hon beth ydym wedi gwneud a beth ydym yn bwriadu gwneud mewn perthynas â'r Dyletswyddau Penodol Cymreig, er mwyn cyflawni'r Ddyletswydd Gyffredinol y soniwyd amdani ar dudalen 9.

### Rheoleiddiad 3: Amcanion Rheoleiddio

*Dylid prif ffrydio amcanion cydraddoldeb fel y gall pob gwasanaeth ac adran gyfrannu at welliannau cydraddoldeb a rheoli eu hymrwymiadau cydraddoldeb fel rhan annatod o'u gwelliannau cyffredinol a'u hymrwymiadau gwasanaeth i gwsmeriaid.*

#### Beth ydym wedi gwneud

- Alinio'r holl gamau corfforaethol â deilliant o fewn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd

#### Beth ydym yn bwriadu gwneud

- Monitro ac adolygu deilliannau cydraddoldeb gan ystyried effeithiau COVID-19

### Rheoleiddiad 4: Paratoi ac adolygu Amcanion Cydraddoldeb

*Mae gan Awdurdodau ddyletswydd i gasglu ystod o wybodaeth cydraddoldeb i gyfrannu at y gronfa dystiolaeth hon.*

#### Beth ydym wedi gwneud

- Defnyddio gwybodaeth arolygon/adborth gan y cyhoedd a systemau mewnol megis y System Gwybodaeth Rheoli Busnes (SGRhB) ill dau

#### Beth ydym yn bwriadu gwneud

- Cynnal cynlluniau peilot ar brosesau casglu data newydd

## Rheoleiddiad 5: Darpariaethau Ymgysylltu

*Fel rhan o gasglu gwybodaeth berthnasol, bydd angen i Awdurdod ymgysylltu â phobl briodol wrth asesu'i waith mewn perthynas â chwrdd â thri nod y ddyletswydd gyffredinol.*

### Beth ydym wedi gwneud

- Datblygu ffyrdd newydd o hyrwyddo negeseuon diogelwch, megis hysbysebu ar ochr faniau, er mwyn cyrraedd y bobl nad ydynt o bosib yn cyrchu'r rhyngrwyd
- Newid sut y cynhaliwyd ymweliadau ag ysgolion er mwyn parhau i ddarparu yn ystod cyfyngiadau symud y pandemig
- Cynyddu ymgysylltu ar-lein trwy law'r cyfryngau cymdeithasol

### Beth ydym yn bwriadu gwneud

- Cynyddu'r opsiynau hyn, gan gynnwys archwilio i radio a phodlediadau
- Adolygu sut y gellir ehangu ystod y ddarpariaeth

## Rheoleiddiad 6: Hygyrchedd gwybodaeth a gyhoeddwyd

*Rhaid i Awdurdodau Lleol sicrhau y cyhoeddir unrhyw ddogfen neu wybodaeth i gwrdd â'i ddyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol neu benodol mewn modd sy'n hygyrch i bobl o blith grwpiau gwarchodedig.*

### Beth ydym wedi gwneud

- Cynyddu'r defnydd o glipiau fideo a giffiau ar y cyfryngau cymdeithasol i gynyddu'r gynulleidfa ymhellach
- Dylunio dogfennau corfforaethol megis y Cynllun Strategol gyda fformatau byrrach, llai o ysgrifen a mwy o luniau
- Dechrau edrych ar ffyrdd newydd o hyrwyddo negeseuon i bobl dan anfantais gymdeithasol, gan gynnwys parcio cerbydau â hysbysebion arnynt mewn lleoliadau penodol
- Asesu'r holl ddogfennau cyhoeddedig a negeseuon cyfryngau ill dau i sicrhau bod y delweddau a'r geiriad yn berthnasol ac yn gynhwysol

### Beth ydym yn bwriadu gwneud

- Parhau i archwilio i ddulliau newydd o gynyddu hygyrchedd gan gynnwys cydymffurfio â'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

## Rheoleiddiad 7: Trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth ynghylch cydymffurfiaeth â’r ddyletswydd gyffredinol

*Rhaid i awdurdod rhoi trefniadau priodol mewn lle i sicrhau ei fod yn adnabod y wybodaeth berthnasol sydd yn ei feddiant, ac adnabod a chasglu gwybodaeth berthnasol nad sydd yn ei feddiant.*

### Beth ydym wedi gwneud

- Cysylltu’r holl gamau corfforaethol ag un o ddeilliannau’r Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Gwneud cynnydd o ran y system newydd ar gyfer casglu data dienw defnyddwyr y gwasanaeth
- Adolygu’r systemau casglu data a gwybodaeth i baratoi ar gyfer y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol newydd

### Beth ydym yn bwriadu gwneud

- Cwblhau treialu a chyflwyno’r dull newydd o gasglu data dienw gan ddefnyddwyr y gwasanaeth

## Rheoleiddiad 8: Effaith a monitro polisïau ac arferion

*Mae angen cwblhau asesiadau pan gaiff polisi neu arfer ei gynnig neu ei adolygu. Bydd hwn yn cynnwys cynllunio busnes, cynigion arbedion effeithlonrwydd ac ailstrwythuro staff.*

### Beth ydym wedi gwneud

- Cynnwys gwiriadau asesu mewn templedi Adroddiadau'r Awdurdod Tân
- Adolygu'r broses asesu effaith (sy'n disgwyl cael ei chymeradwyo ar hyn o bryd)

### Beth ydym yn bwriadu gwneud

- Ar ôl eu cymeradwyo, cyflwyno mwy o sesiynau gwybodaeth am y broses newydd

## Rheoleiddiad 9: Casglu ac adrodd gwybodaeth cyflogaeth

*Mae hyn yn cynnwys data ar recriwtio a chadw, dyrchafu, cyfleoedd hyfforddi, a chamau gweithredu cwynion a disgyblu. Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad hwn, cafwyd 6 chwyn a 26 achos disgyblu, ac roedd un ohonynt yn ymwneud â nodwedd warchodedig.*

### Beth ydym wedi gwneud

- Cynnal gwaith helaeth i alluogi trosglwyddo gwybodaeth am gymwysiadau yn awtomatig i dudalen bersonol gweithiwr newydd

### Beth ydym yn bwriadu gwneud

- Dadansoddi'r data hyrwyddo i asesu a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau anuniongyrchol sy'n atal staff sy'n perthyn i grwpiau a dangynrychiolir rhag ymgeisio a llwyddo/neu lwyddo

## Rheoleiddiad 10: Hyfforddi Staff

*Mae'n ofynnol i Awdurdodau hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol ymysg gweithwyr a rhaid sicrhau y defnyddir gweithdrefnau asesu perfformiad, megis gwerthusiadau personol neu adolygiadau datblygu personol i adnabod a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi.*

### Beth ydym wedi gwneud

- Ymgynghori gyda staff ar y broses adolygu bersonol newydd i staff sy'n canolbwyntio ar eu datblygiad
- Diweddaru platfform Coursemill i alluogi cynnal modiwlau dysgu rhithiol ac e-ddysgu
- Sicrhau bod sesiynau cynefino yn parhau i gynnwys yr elfen Cyflwyniad i Gydraddoldeb

### Beth ydym yn bwriadu gwneud

- Cyflwyno'r broses adolygu bersonol newydd, gan gynnwys darparu hyfforddiant i reolwyr a staff

## Rheoliadau 11 a 12: Cyflog Cyfartal a Chynlluniau Gweithredu

### Beth ydym wedi gwneud

- Cyhoeddi ein Hadroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau y gellir ei weld ar YouGov a'n gwefan - Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau 2020

  Gender Pay Gap Report 2020

### Beth ydym yn bwriadu gwneud

- Parhau i adolygu ac archwilio i gamau a allai leihau'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau o fewn y Gwasanaeth yn gyffredinol

## Rheoleiddiad 13: Adolygiad o’r trefniadau
## Rheoleiddiad 14: Adrodd blynyddol ar gydymffurfio â’r ddyletswydd gyffredinol

*Rhaid adolygu amcanion cydraddoldeb o leiaf bob 4 mlynedd. Hefyd, mae’n ofynnol i awdurdodau gadw agweddau eraill o gydymffurfedd â’r dyletswyddau cyffredinol a phenodol o dan arolygaeth.*

### Beth ydym wedi gwneud

- Drafftio ac ymgynghori ar Gynllun Cydraddoldeb Strategol newydd 2020-2025, a aliniwyd â fframwaith pum mlynedd Cynllun Strategol y Gwasanaeth

### Beth ydym yn bwriadu gwneud

- Sicrhau y cesglir a chyhoeddir adolygiadau Cynllun Cydraddoldeb Strategol o flaen y terfyn amser sy’n ofynnol yn gyfreithiol
- Cynnwys y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol newydd wrth adolygu ac adrodd amcanion

## Rheoleiddiad 18: Caffael Cyhoeddus

*Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn gymwys i holl gaffaeliadau er gwaethaf gwerth y cytundeb. Mae'r ddyletswydd benodol yn gymwys pan fydd Awdurdod Lleol yn caffael trafodion gwaith, nwyddau neu wasanaethau gan sefydliadau eraill ar sail 'cytundeb perthnasol'.*

### Beth ydym wedi gwneud

- Ceisio gwybodaeth gan gyflenwyr drwy ein proses gaffael yn unol ag Arferion Cyfle Cyfartal a Gwahaniaethol, hyfforddiant a chyfleoedd dyrchafu

### Beth ydym yn bwriadu gwneud

- Adolygu meini prawf gwerthuso i gynnwys unrhyw ddeddfwriaeth newydd

# Data Gwasanaeth 1af o Ebrill 2020 i'r 31ain o Fawrth 2021*

SYLWCH: Mae meysydd cydraddoldeb yn wirfoddol ac yn agored i fewnbwn gan yr ymgeisydd, a allai gyflwyno ddwywaith.

Mae'r data hwn o Wiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref ac nid yw'n cynnwys ein holl wasanaethau (h.y. sesiynau ysgolion)

## Oed

| Ystod Oedran | 2020/2021 |
|---|---|
| 18-20 | 8 |
| 21-24 | 31 |
| 25-40 | 247 |
| 41-59 | 300 |
| 60-64 | 119 |
| 65-69 | 129 |
| 70-74 | 167 |
| 75-79 | 236 |
| 80-84 | 250 |
| 85-89 | 193 |
| 90+ | 152 |
| Heb ateb/Dewis peidio datgan | 2,059 |
| **Cyfanswm** | **3,891** |

## Rhyw/Rhywedd

| Rhyw/Rhywedd | 2020/2021 |
|---|---|
| Benywaidd | 1,197 |
| Gwrywaidd | 671 |
| Heb ateb/Dewis peidio datgan | 2,023 |
| **Cyfanswm** | **3,891** |

## Anabledd

| Anabledd | 2020/2021 |
|---|---|
| Oes | 417 |
| Nac oes | 962 |
| Heb ateb/Dewis peidio datgan | 2,512 |
| **Cyfanswm** | **3,891** |

# Data Gwasanaeth o'r 1af o Ebrill 2020 i'r 31ain o Fawrth 2021

## Cenedligrwydd

| Cenedligrwydd | 2020/2021 |
|---|---|
| Affricanaidd | 3 |
| Unrhyw gefndir arall | 8 |
| Prydeinig | 687 |
| Caribïaidd | 3 |
| Seisnig | 26 |
| Indiaidd | 6 |
| Gwyddelig | 11 |
| Asiaidd Arall | 1 |
| Du Arall | 2 |
| Gwyn Arall | 8 |
| Pacistanaidd | 3 |

| Cenedligrwydd | 2020/2021 |
|---|---|
| Albanaidd | 3 |
| Cymreig | 615 |
| Gwyn ac Asiaidd | 1 |
| Gwyn a Du Affricanaidd | 1 |
| Heb ateb/Dewis peidio datgan | 2,513 |
| **Cyfanswm** | **3,891** |

# Data Gwasanaeth o'r 1af o Ebrill 2020 i'r 31ain o Fawrth 2021

## Siaradwr Cymraeg

| Siaradwr Cymraeg | 2020/2021 |
|---|---|
| Oes | 38 |
| Nac oes | 1,574 |
| Heb ateb/Dewis peidio datgan | 2,279 |
| **Cyfanswm** | **3,891** |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

| Cyfeiriadedd Rhywiol | 2020/2021 |
|---|---|
| Deurywiol | 2 |
| Hoyw | 2 |
| Heterorywiol | 1,093 |
| Lesbaidd | 3 |
| Arall | 3 |
| Heb ateb/Dewis peidio datgan | 2,788 |
| **Cyfanswm** | **3,891** |

## Crediniaeth

| Crediniaeth | 2020/2021 |
|---|---|
| Anffyddiwr | 55 |
| Cristion | 585 |
| Iddew | 2 |
| Mwslim | 7 |
| Arall | 31 |
| Heb ateb/Dewis peidio datgan | 3,211 |
| **Cyfanswm** | **3,891** |

# Data Gwasanaeth o'r 1af o Ebrill 2020 i'r 31ain o Fawrth 2021

Mae data yn seiliedig ar ymweliadau â'r cartref lle rhoddwyd cyngor Diogelwch yn y Cartref:

## Tanau damweiniol mewn tai

| Tanau damweiniol mewn tai* | 2020/2021 |
|---|---|
| Pobl dros 65 oed | 65 |
| Preswylwyr sy'n adnabod eu hunain yn ddi-Brydeinig o ran eu hethnigrwydd** | 8 |

## Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a fynychwyd

| Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a fynychwyd gan GTADC | 2020/2021 |
|---|---|
| Pobl dros 65 oed | 55 |
| Dioddefwyr GTFf sy'n adnabod eu hunain yn ddi-Brydeinig o ran eu hethnigrwydd** | 17 |

## Ymweliadau Gwiriad Diogelwch yn y Cartref

| Ymweliadau Gwiriad Diogelwch yn y Cartref | 2020/2021 |
|---|---|
| **Anabl** | **417** |
| Larymau Mwg a osodwyd*** | 277 |
| **Pobl 65 dros oed+** | **1,127** |
| Larymau Mwg a osodwyd*** | 874 |
| **Preswylwyr sy'n adnabod eu hunain yn ddi-Brydeinig o ran eu hethnigrwydd**** | **47** |
| Larymau Mwg a osodwyd*** | 63 |
| **Anheddau Teuluoedd Un Rhiant Larymau Mwg a osodwyd** | **148** |
| Larymau Mwg Arbenigol a osodwyd*** | 125 |

# Data Gwasanaeth 1af
# o Ebrill 2020 i'r 31ain o Fawrth 2021

* Cymerir gwybodaeth o ddemograffeg a gaffaelwyd pan gynhwysodd Tân Damweiniol mewn Annedd (TDA) ddioddefwyr a hefyd gan ddemograffeg a gasglwyd drwy ATDC o anheddau a gafodd Dân Damweiniol mewn Annedd yn ystod blwyddyn ariannol 2020/2021

** Mae gwybodaeth cenedligrwydd yn hunan-gyhoeddedig. Mae bod yn ddi-Brydeinig yn ôl ethnigrwydd yn golygu pob ethnigrwydd nad ydyw'n Seisnig, Gwyddelig o Ogledd Iwerddon, Albanaidd a Chymreig

*** Larymau mwg safonol a ddosbarthwyd gan Asiantaeth Partner/Bersonél Diogelwch Cymunedol neu Bersonél Gorsaf

**** Larymau mwg arbenigol i bobl fyddar a ddosbarthwyd gan Asiantaeth Partner/ Bersonél Diogelwch Cymunedol neu Bersonél Gorsaf

Isod mae rhestr o grwpiau ethnig nad ydynt yn Brydeinig a hunan adnabuwyd yn ystod y flwyddyn ariannol 2020/2021:

- Affricanaidd
- Asiaidd
- Bangladeshaidd
- Du Arall
- Caribïaidd
- Tsieineaidd
- Gwyddelig
- Amlhiliol
- Gwyn Arall

# Data Staff

Yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, mae data staff gwbl ddienw (yn ôl Nodweddion Gwarchodedig hunan-gyhoeddedig) yn weladwy erbyn hyn ar ffurf Dogfen Data Ffynhonnell Agored.

https://www.southwales-fire.gov.uk/publications/equalities-diversity/

Golyga hyn ni ellir adnabod unrhyw un yn bersonol yn ôl y modd cyflwyno data, ond eto mae modd i ni ddangos dadansoddiad cyffredinol o sut yr ydym yn gweithio'n barhaus tuag at gynrychioli ein cymunedau.

A fyddech cystal â nodi, pan fu'r niferoedd yn isel, y cadwyd hwy rhag yr adroddiad data. Mae hwn i helpu sicrhau na ellir adnabod unrhyw unigolyn. Bydd ffigyrau ar gyfer Rhyw/Graddfa yn ogystal ag Ymadawyr yn cael eu cynnwys.

Os hoffech chi gopi papur o'r data hwn, e-bostiwch:

divext@southwales-fire.gov.uk


Yr Uned Amrywiaeth,

Pencadlys GTADC,
Parc Busnes Forest View,
Llantrisant, CF72 8LX

Gan nodi eich cyfeiriad a'ch dewis iaith.

Mae'r ddwy dudalen ddilynol sy'n cynnwys siartiau yn rhoi trosolwg o wybodaeth allweddol. Mae'n werth nodi bod data staff yn seiliedig ar nifer y bobl, nid nifer y swyddi. (Mae gan rai ddau gytundeb, e.e. gall Diffoddwyr Tân Dyletswydd Gyflawn hefyd fod Ar Alwad yn eu Gorsafoedd lleol)

# Holl ddata Staff ar sail Rhywedd* o'r 31ain o Fawrth 2021 ymlaen





*Cofnodir Staff Trawsrywiol heb Dystysgrif Cydnabod Rhywedd (TCRh) yn ôl y rhywedd sy'n gysylltiedig â'u rhif YG. Ar hyn o bryd, mae CThEM yn gofyn am Dystysgrif Cydnabod Rhywedd cyn eu bod yn diwygio statws rhywedd, treth neu bensiwn. Mae hwn y tu hwnt i reolaeth Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Defnyddir y term 'Rhywedd' (yn lle Rhyw) er mwyn alinio data â gofyniad cyfreithiol y Llywodraeth i gynhyrchu Adroddiad Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau.


# Staff Data ar gyfer y 1af o Ebrill 2019 hyd yr 31ain o Fawrth 2021

SYLWCH: Mae meysydd cydraddoldeb yn wirfoddol ac yn agored i fewnbwn gan yr ymgeisydd, a allai gyflwyno ddwywaith.




# Staff Cynnal yn ôl Rhywedd/Graddfa ar yr 31ain o Fawrth 2021

SYLWCH: Mae meysydd cydraddoldeb yn wirfoddol ac yn agored i fewnbwn gan yr ymgeisydd, a allai gyflwyno ddwywaith.



# **Staff Gwisg** (gan gynnwys Rheoli ac Ar Alwad) **yn ôl Rhywedd/Graddfa ar yr 31ain o Fawrth 2021**



# Data Recriwtio: 2020 - 2021

## Ceisiadau a Dderbyniwyd - Staff Cynnal

### Rhywedd

| Rhywedd | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Benywaidd | 306 |
| Gwrywaidd | 150 |
| Trawsrywiol | 0 |
| Anhysbys | 0 |
| Dewis peidio datgan | 0 |

### Oed

| Oed | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Dan 18 | 0 |
| 18-24 | 74 |
| 25-40 | 160 |
| 41-59 | 77 |
| 60+ | 5 |
| Dewis peidio datgan | 140 |

### Anabledd

| Anabledd | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Cofrestrwyd ag Anabledd | 14 |
| Heb Gofrestru'n Anabl | 292 |
| Dewis peidio datgan | 150 |

### Cenedligrwydd

| Cenedligrwydd | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Lleiafrif Ethnig | 9 |
| Gwyn | 295 |
| Dewis peidio datgan | 152 |

SYLWCH: Mae meysydd cydraddoldeb yn wirfoddol ac yn agored i fewnbwn gan yr ymgeisydd, a allai gyflwyno ddwywaith.

# Data Recriwtio: 2020 - 2021

## Ceisiadau a Dderbyniwyd - Staff Cynnal

### Crediniaeth

| Crediniaeth | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Anffyddiwr | heb eu cofnodi |
| Bwdhydd | 2 |
| Cristion | 100 |
| Hindŵ | 1 |
| Iddew | 0 |
| Mwslim | 1 |
| Sikh | heb eu cofnodi |
| Dim | 191 |
| Arall | 0 |
| Dewis peidio datgan | 161 |

### Cyfeiriadedd Rhywiol

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Deurywiol | 35 |
| Hoyw | 4 |
| Heterorywiol | 255 |
| Lesbaidd | 1 |
| Arall | 0 |
| Dewis peidio datgan | 161 |

### Siaradwr Cymraeg

| Siaradwr Cymraeg | 2019/2020 |
|---|---|
| Ddim yn siarad Cymraeg | 159 |
| Dysgwr | 88 |
| Canolradd | 15 |
| Rhugl | 35 |
| Dewis peidio datgan | 159 |

# Data Recriwtio: 2020 - 2021

## Ceisiadau a Dderbyniwyd
## - Diffoddwr Tân y Ddyletswydd Gyflawn

### Rhywedd

| Rhywedd | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Benywaidd | 247 |
| Gwrywaidd | 1,770 |
| Trawsrywiol | 0 |
| Anhysbys | 482 |
| Dewis peidio datgan | 0 |

### Oed

| Oed | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Dan18 | 0 |
| 18-24 | 811 |
| 25-40 | 1,396 |
| 41-59 | 102 |
| 60+ | 0 |
| Dewis peidio datgan | **190** |

### Anabledd

| Anabledd | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Cofrestrwyd ag Anabledd | 0 |
| Heb Gofrestru'n Anabl | 289 |
| Dewis peidio datgan | 2,210 |

### Cenedligrwydd

| Cenedligrwydd | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Lleiafrif Ethnig | 104 |
| Gwyn | 1,935 |
| Dewis peidio datgan (arall) | 1 |
| Dewis peidio datgan | 459 |

SYLWCH: Mae meysydd cydraddoldeb yn wirfoddol ac yn agored i fewnbwn gan yr ymgeisydd, a allai gyflwyno ddwywaith.

# Data Recriwtio: 2020 - 2021

## Ceisiadau a Dderbyniwyd
## - Diffoddwr Tân y Ddyletswydd Gyflawn

### Crediniaeth

| Crediniaeth | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Anffyddiwr | heb eu cofnodi |
| Bwdhydd | 10 |
| Cristion | 600 |
| Hindŵ | 0 |
| Iddew | 2 |
| Mwslim | 4 |
| Sikh | 3 |
| Dim | 7 (Islam) |
| Arall | 1,873 |

### Cyfeiriadedd Rhywiol

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Deurywiol | 138 |
| Hoyw | 32 |
| Heterorywiol | 2,104 |
| Lesbaidd | 43 |
| Arall | 8 |
| Dewis peidio datgan | 174 |

### Siaradwr Cymraeg

| Siaradwr Cymraeg | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Ddim yn siarad Cymraeg | 74 |
| Dysgwr | 107 |
| Canolradd | 34 |
| Rhugl | 154 |
| Dewis peidio datgan | 2,364 |

# Data Recriwtio: 2020 2021

## Ceisiadau a Dderbyniwyd - Diffoddwr Tân Ar Alwad

### Rhywedd

| Rhywedd | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Benywaidd | 70 |
| Gwrywaidd | 485 |
| Trawsrywiol | 3 |
| Anhysbys | 2 |

### Anabledd

| Anabledd | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Cofrestrwyd ag Anabledd | 1 |
| Heb Gofrestru'n Anabl | 526 |
| Dewis peidio datgan | 33 |

### Oed

| Oed | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Dan 18 | 19 |
| 18-24 | 197 |
| 25-40 | 290 |
| 41-59 | 42 |
| 60+ | 6 |
| Dewis peidio datgan | 6 |

### Cenedligrwydd

| Cenedligrwydd | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Lleiafrif Ethnig | 19 |
| Gwyn | 507 |
| Dewis peidio datgan | 34 |

SYLWCH: Mae meysydd cydraddoldeb yn wirfoddol ac yn agored i fewnbwn gan yr ymgeisydd, a allai gyflwyno ddwywaith.

# Data Recriwtio: 2020 2021

## Ceisiadau a Dderbyniwyd - Diffoddwr Tân Ar Alwad

### Crediniaeth

| Crediniaeth | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Anffyddiwr | heb eu cofnodi |
| Bwdhydd | 1 |
| Cristion | 110 |
| Hindŵ | 0 |
| Iddew | 1 |
| Mwslim | 1 |
| Sikh | 383 |
| Dim | 5 |
| Arall | 58 |

### Cyfeiriadedd Rhywiol

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Deurywiol | 9 |
| Hoyw | 5 |
| Heterorywiol | 476 |
| Lesbaidd | 7 |
| Dewis peidio datgan | 63 |

### Siaradwr Cymraeg

| Siaradwr Cymraeg | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Ddim yn siarad Cymraeg | 475 |
| Dysgwr | 57 |
| Canolradd | 1 |
| Rhugl | 15 |
| Dewis peidio datgan | 12 |

# Data Recriwtio: 2020 - 2021
## Ceisiadau a Dderbyniwyd - Rheoli

### Rhywedd

| Rhywedd | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Benywaidd | 209 |
| Gwrywaidd | 166 |
| Trawsrywiol | 0 |
| Anhysbys | 0 |
| Dewis peidio datgan | 140 |

### Anabledd

| Anabledd | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Cofrestrwyd ag Anabledd | 136 |
| Heb Gofrestru'n Anabl | 2 |
| Dewis peidio datgan | 140 |

### Oed

| Oed | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Dan 18 | 0 |
| 18-24 | 146 |
| 25-40 | 269 |
| 41-59 | 99 |
| 60+ | 1 |
| Dewis peidio datgan | **2,003** |

### Cenedligrwydd

| Cenedligrwydd | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Lleiafrif Ethnig | 14 |
| Gwyn | 500 |
| Dewis peidio datgan | 1 |
| Teithiwr/Arall | 0 |

SYLWCH: Mae meysydd cydraddoldeb yn wirfoddol ac yn agored i fewnbwn gan yr ymgeisydd, a allai gyflwyno ddwywaith.

# Data Recriwtio: 2020 - 2021

## Ceisiadau a Dderbyniwyd - Rheoli

### Crediniaeth

| Crediniaeth | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Anffyddiwr | heb eu cofnodi |
| Bwdhydd | 0 |
| Cristion | 114 |
| Hindŵ | 0 |
| Iddew | 1 |
| Mwslim | 0 |
| Sikh | 372 |
| Dim | 6<br>(5 arall, 1 Islam) |
| Arall | 22 |

### Cyfeiriadedd Rhywiol

| Cyfeiriadedd Rhywiol | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Deurywiol | 22 |
| Hoyw | 16 |
| Heterorywiol | 439 |
| Lesbaidd | 17 |
| Arall | 3 |
| Dewis peidio datgan | 18 |

### Siaradwr Cymraeg

| Siaradwr Cymraeg | Cyfanswm Ceisiadau |
|---|---|
| Ddim yn siarad Cymraeg | 11 |
| Dysgwr | 10 |
| Canolradd | 9 |
| Rhugl | 20 |
| Dewis peidio datgan | 472 |

# Geirfa

**Y Ddeddf Cydraddoldeb (2010)**

Amnewidiodd hon mwy na 100 darn o ddeddfwriaeth gydag un ddogfen gyfreithiol.

**Y Ddyletswydd Gyffredinol**

Sefydlodd Deddf Cydraddoldeb 2010 Ddyletswydd Gyffredinol sydd â thri maes sylfaenol iddi:

- Dileu gwahaniaethu
- Dyrchafu cydraddoldeb cyfle
- Maethu cydberthnasau da

**Nodweddion Gwarchodedig**

Y rhain yw'r nodweddion a adnabuwyd ac a warchodwyd gan y Gyfraith rhag cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn neu gael eu trin yn llai nag unrhywun arall mewn unrhyw fodd, ac sy'n cwmpasu: Oed, Crediniaeth/Anghrediniaeth, Anabledd, Ailbennu Rhywedd, Hil, Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol.

O dan amgylchiadau penodol, mae'r rhain hefyd yn cynnwys Partneriaethau Sifil/Priodasau a Beichiogrwydd/Mamolaeth.

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS)**

Datblygir ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol gyda mewnbwn gan staff a chymunedau, ac amlinella sut rydym yn cynllunio cwrdd â gofynion Deddf Cydraddoldeb (2010) a'r Dyletswyddau Penodol Cymreig ill dau.

**Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS)**

Datblygir ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol gyda mewnbwn gan staff a chymunedau, ac amlinella sut rydym yn cynllunio cwrdd â gofynion Deddf Cydraddoldeb (2010) a'r Dyletswyddau Penodol Cymreig ill dau.

**Cynllun Gwella**

Cyhoeddir hwn ar ein gwefan (www.decymru-tan.gov.uk) a dengys sut rydym yn perfformio ar draws ein gwasanaethau, ynghyd â beth yw'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Y Cynllun Strategol**

Cyhoeddir y cynllun hwn ar ein gwefan (gweler uchod) a dengys ein blaenoriaethau yn ogystal â sut rydym yn bwriadu cwrdd â hwy.

**Gwasanaeth Tân ac Achub de Cymru**
**Y Pencadlys, Parc Busnes Forest View, Llantrisant. CF72 8LX**

amrywiaeth@decymru-tan.gov.uk | www.decymru-tan.gov.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg
- byddwn yn ymateb yn gydradd i'r ddwy ac yn ateb yn eich dewis iaith cyn gynted â phosib.

@SWFireandrescue @SWFireandrescue @sw_fire_and_rescue

Dyluniwyd gan yr Adran Cyfryngau a Chyfathrebiadau - GTADC 2021 - J/N 3965/EO